**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**BWRDD ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY'R CABINET**

**DYDD GWENER, 22 HYDREF 2021**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: L.Jones (Cadeirydd) a/ac D.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

C.Morris, A. Collins, Mrs.J.Davies, N.Headon a/ac C.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd L C Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S K Hunt - | Parthed Cymorth Grant COVID-19 i Fusnesau Lleol o fis Mawrth 2020 hyd yma, am ei fod yn aelod ac yn Gadeirydd elusennau a sefydliadau amrywiol a oedd yn derbyn arian o'r Gronfa Cymorth Grant COVID-19. |
| Y Cynghorydd R L Taylor | Parthed Cymorth Grant COVID-19 i Fusnesau Lleol o fis Mawrth 2020 hyd heddiw, am ei bod yn ymddiriedolwr o Lyfrgell Tai-bach a oedd yn derbyn y grant AAG. |

Nodwyd bod gan yr Aelodau oddefeb a oedd yn caniatáu iddynt siarad a phleidleisio.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 17 Medi 2021

4. **GRANT EIDDO MASNACHOL: 23 MAES YR EGLWYS, CASTELL-NEDD SA11 3LL**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, bod y cynllun Grant Eiddo Masnachol i gynorthwyo gyda'r gwaith gwella allanol i'r eiddo masnachol yn 23 Maes yr Eglwys, Castell-nedd SA11 3LL, yn cael ei gymeradwyo.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Rhoi darpariaethau'r cynllun Grant Eiddo Masnachol ar waith yn unol â'r meini prawf a thelerau gweinyddu'r grant, er mwyn cyfrannu at adfywio canol tref Castell-nedd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

5. **CYMORTH GRANT COVID-19 AR GYFER BUSNESAU LLEOL O FIS MAWRTH 2020 I'R PRESENNOL**

Diolchodd yr Aelodau i swyddogion am eu holl waith caled yn ystod cyfnodau anodd.

**Penderfyniad:**

Nodi’r adroddiad.

6. **DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL 2019/2020 - CHWARTER 1 (1 EBRILL 2021 - 30 MEHEFIN 2021)**

**Penderfyniad:**

Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

7. **BLAENRAGLEN WAITH 2021-2022**

**Penderfyniad:**

Nodi Blaenraglen Waith 2021/2022.

8. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

9. **Y DIWEDDARAF AM BROSIECT TWNNEL Y RHONDDA**

**Penderfyniad:**

Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf

10. **CYNNIG ARFAETHEDIG I WAREDU TIR DATBLYGU A ADWAENIR FEL LLAIN 1, NANT Y CAFN, HEOL DULAIS, BLAENDULAIS**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Sgrinio Effaith Integredig y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio i waredu tir, fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Caniatáu ar gyfer cael gwared ar eiddo dros ben ac ennill derbynneb cyfalaf.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

11. **CYNNIG I GWBLHAU GWAITH HEB EI ORFFEN YN YGG PONTARDAWE**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig y dylid rhoi cymeradwyaeth i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio gwblhau trafodaethau ar gyfer gwaith sy'n weddill yn YGG Pontardawe, fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi ar gyfer cwblhau gwaith hanfodol sy'n weddill yn YGG Pontardawe i alluogi'r ysgol i ddefnyddio ei chyfleusterau'n llawn.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

12. **CYNNIG ARFAETHEDIG I GAFFAEL TIR A GAREJ DDOMESTIG AR GYFFORDD YR A48 Â STRYD Y DŴR, MARGAM AR GYFER Y CYNLLUN LLWYBR TROED/LLWYBR BEICIO ARFAETHEDIG SY'N CYSYLLTU EGLWYS NYNNID A PHARC DEWI SANT, MARGAM**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw i'r Asesiad Effaith Integredig cam cyntaf, cymeradwyo'r amodau a thelerau ar gyfer caffael tir ar gyffordd yr A48 a Stryd y Dŵr, Margam ar gyfer y cynllun llwybr troed/llwybr beicio sy'n cysylltu Eglwys Nynnid a Pharc Dewi Sant, Margam, Port Talbot, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn breifat.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Bydd y caffaeliad yn helpu i hwyluso'r cynllun llwybr troed/llwybr beicio arfaethedig sy'n cysylltu Eglwys Nynnid a Pharc Dewi Sant, Margam, Port Talbot.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 13. EITEM FRYS

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r materion sydd wedi'u cynnwys yng Nghofnod Rhif. 14 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi'r eitemau hyn yng nghyfarfod heddiw fel eitemau brys yn unol ag Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290 (fel y'i diwygiwyd)

Rheswm: Oherwydd yr elfen amser.

## 14. CYNNIG ARFAETHEDIG I WAREDU TIR YNG NGLANNAU'R HARBWR I GOLEG CNPT AR Y CYD Â'R CYNNIG ARFAETHEDIG I GAFFAEL TIR YN FABIAN WAY GAN LYWODRAETH CYMRU

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Sgrinio Integredig:

1. Bod y Pennaeth Eiddo ac Adfywio yn cael awdurdod dirprwyedig i waredu tir yng Nglannau'r Harbwr, fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

2. Bod y Pennaeth Eiddo ac Adfywio yn cael awdurdod dirprwyedig i gaffael tir gan Lywodraeth Cymru yn Fabian Way, fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Galluogi ar gyfer gwaredu tir dros ben a sicrhau derbynneb cyfalaf, ynghyd â chaffael safle cyflogaeth strategol.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**CADEIRYDD**